Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 45

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Gylchfan Pont Abraham, Cwmgwili, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *17 Chwefror 2026* |

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 45

## The A48 Trunk Road (Cross Hands Roundabout to Pont Abraham Roundabout, Cwmgwili, Carmarthenshire) (Derestriction) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *12 February 2026* |
| *Coming into force* | *17 February 2026* |

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2026 Rhif 45

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Gylchfan Pont Abraham, Cwmgwili, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2026

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *12 Chwefror 2026* |
| *Yn dod i rym* | *17 Chwefror 2026* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o gefnffordd yr A48, a thrwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 82(2) a 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984([1]), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi hysbysiad cyhoeddus o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol ag adran 83(1) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A48 (Cylchfan Cross Hands i Gylchfan Pont Abraham, Cwmgwili, Sir Gaerfyrddin) (Dileu Cyfyngiadau) 2026 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 17 Chwefror 2026.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y gefnffordd" ("*the trunk road*") yw cefnffordd yr A48 Llundain i Abergwaun.

### Dileu Cyfyngiadau

**3.** Bydd y darnau hynny o gefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o Gylchfan Cross Hands i Gylchfan Pont Abraham, Cwmgwili, Sir Gaerfyrddin, fel y'u pennir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn, yn peidio â bod yn ffordd gyfyngedig at ddibenion adran 81 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984.

(**1**) 1984 p. 27. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Llofnodwyd ar ran Ysgrifennydd y Cabinet dros Drafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
12 Chwefror 2026
Llywodraeth Cymru

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# YR ATODLEN

Y darn o gerbytffordd tua'r gogledd a cherbytffordd tua'r de cefnffordd yr A48 sy'n ymestyn o bwynt a leolir 632 o fetrau i'r gogledd o'i chyffordd â Heol y Deri, Cwmgwili, hyd at bwynt a leolir 213 o fetrau i'r de o'r gyffordd honno.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

# 2026 No. 45

# ROAD TRAFFIC, WALES

## The A48 Trunk Road (Cross Hands Roundabout to Pont Abraham Roundabout, Cwmgwili, Carmarthenshire) (Derestriction) Order 2026

| | |
|---|---|
| *Made* | *12 February 2026* |
| *Coming into force* | *17 February 2026* |

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A48 trunk road, and in exercise of the powers conferred upon them by sections 82(2) and 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984(**1**), make this Order.

The Welsh Ministers have given public notice of their intention to make this Order in accordance with section 83(1) of the Road Traffic Regulation Act 1984.

### Title and commencement

**1.** The title of this Order is the A48 Trunk Road (Cross Hands Roundabout to Pont Abraham Roundabout, Cwmgwili, Carmarthenshire) (Derestriction) Order 2026 and this Order comes into force on 17 February 2026.

### Interpretation

**2.** In this Order—

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A48 London to Fishguard trunk road.

### Derestriction

**3.** Those lengths of the A48 trunk road that extend from Cross Hands Roundabout to Pont Abraham Roundabout, Cwmgwili, Carmarthenshire, as specified in the Schedule to this Order, shall cease to be a restricted road for the purposes of section 81 of the Road Traffic Regulation Act 1984.

(**1**) 1984 c. 27. By virtue of S.I. 1999/672, and section 162 of, and paragraph 30 of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c. 32), these powers are now exercisable by the Welsh Ministers in relation to Wales.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Signed on behalf of the Cabinet Secretary for Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

*Nicci Hunter*
Business Team Leader
12 February 2026
Welsh Government

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

# SCHEDULE

The length of the northbound and southbound carriageways of the A48 trunk road that extend from a point located 632 metres north of its junction with Heol Y Deri, Cwmgwili, to a point located 213 metres south of the said junction.